Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb i adroddiad 'Sioc Ddiwylliannol' y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Rhagfyr 2024

Diolch i aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (CCWLSIR) am eu hadroddiad cynhwysfawr yn archwilio sut mae ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd wedi effeithio ar ein sector diwylliant yng Nghymru.

Mae diwylliant yn rhan annatod o'r ffordd y mae Cymru'n sefydlu ac yn datblygu perthynas â gweddill y byd. Rwy'n croesawu'r cyfle y mae gwaith y Pwyllgor yn ei roi i'n galluogi i ystyried y rhwystrau sy'n wynebu ein llysgenhadon diwylliannol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig tynnu sylw at nifer o'r argymhellion yn ehangach o ran cwmpas a chyfyngderau'r sector diwylliant, gan eu bod yn ymdrin â chyfranogiad Llywodraeth Cymru yn, a blaenoriaethau ar gyfer, yr adolygiad gweithredu o Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE (TCA). Dylid nodi mai diben yr adolygiad yw edrych ar sut y mae'r Cytundeb Masnachu a Chydweithredu yn gweithio, yn hytrach nag edrych ar y Cytundeb yn ei gyfanrwydd, a dylid nodi hefyd fod angen inni fod yn realistig am arwyddocâd y newidiadau y gellid cytuno arnynt.  Rwy'n gobeithio bod yr ymatebion a ddarperir yn addysgiadol ac yn ddefnyddiol.

# Cynnwys

**Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor .................................................... 4**

Argymhelliad 1 .......................................................................................................4

Argymhelliad 2 .......................................................................................................4

Argymhelliad 3 .......................................................................................................5

Argymhelliad 4 .......................................................................................................5

Argymhelliad 5 .......................................................................................................6

Argymhelliad 6 .......................................................................................................7

Argymhelliad 7 .......................................................................................................8

Argymhelliad 8 .......................................................................................................8

Argymhelliad 9 .......................................................................................................9

Argymhelliad 10 .....................................................................................................10

Argymhelliad 11 .....................................................................................................10

Argymhelliad 12 .....................................................................................................11

Argymhelliad 13 .....................................................................................................11

Argymhelliad 14 .....................................................................................................12

# Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor

## Argymhelliad 1

*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r argymhelliad a wnaed gan y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym mis Rhagfyr 2023 (gweler paragraffau 58 a 59 o'r adroddiad hwn), ac i ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i annog y DU a'r UE i ddatblygu eu gweithredoedd.*

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gefnogi'r argymhelliad a wnaed gan y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym mis Rhagfyr 2023. Rydym yn defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael i annog Llywodraeth y DU a'r UE i leddfu'r anawsterau y mae gweithwyr y sector creadigol yn eu hwynebu, yn enwedig artistiaid teithiol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu'n weithredol â Llywodraeth y DU a'r UE, er mwyn sicrhau bod buddiannau gweithwyr creadigol Cymru yn cael eu cynrychioli a'u datblygu.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 2

*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi pa ganllawiau a chymorth y mae'n ei darparu i weithwyr creadigol ar weithio trawsffiniol ar ôl Brexit. Dylai'r ymateb gynnwys manylion am ba wybodaeth sydd ar gael ar ei gwefan, rôl ei chefnogaeth allforio a swyddfeydd tramor, ac unrhyw gyllid a ddarperir i drydydd partïon ar gyfer gwasanaethau cynghori.*

Ymateb: Derbyn

Trwy wefan Busnes Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth i fusnesau am allforio nwyddau a gwasanaethau o Gymru i farchnadoedd tramor, gan gynnwys yr UE. Mae'r wefan yn cynnwys dolenni uniongyrchol i wybodaeth Llywodraeth y DU am weithdrefnau allforio, gan gynnwys gwybodaeth am ofynion y TCA. Yn ogystal, mae ein tîm Cymru Greadigol yn cyfeirio at wybodaeth fanwl sy'n benodol i'r sector, gan gynnwys canllaw teithiol a gomisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr[1]. Mae'r canllaw yn rhoi cyngor manwl i artistiaid teithiol ar lywio rheoliadau newydd, gofynion fisa a goblygiadau treth.

[1] https://www.artsadmin.co.uk/touring-guide/

Mae ein rhaglenni cymorth allforio, gan gynnwys ein rhaglen digwyddiadau masnach dramor ac ochr yn ochr â'n swyddfeydd tramor, hefyd yn chwarae rhan wrth gynorthwyo busnesau i ddatblygu eu hallforion, fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Allforio Cymru. Ar ben hynny, mae Cymru Greadigol yn cynnig cefnogaeth arbenigol ar lefel sector i fusnesau yn y diwydiannau creadigol trwy ystod o gynlluniau ariannu a rhaglenni ymgysylltu â'r sector.

Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (WAI) yw cangen ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC). Mae'n bartner strategol sy'n cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni agweddau celfyddydol a diwylliannol y Strategaeth Ryngwladol. Mae Arts Infopoint UK yn cynnig gwybodaeth ymarferol am ddim i helpu artistiaid, gweithwyr proffesiynol creadigol a sefydliadau i ddeall y rheolau a'r gofynion gweinyddol ar gyfer ymweliadau creadigol â'r DU. Cafwyd esboniad manylach o Arts Infopoint mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymholiad ym mis Chwefror 2024:

Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru Chwefror 2024.pdf

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 3

*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu ei hasesiad o effaith Brexit ar y sector diwylliant yng Nghymru.*

**Ymateb:** Gwrthod

Nid oes unrhyw ymchwil benodol wedi cael ei gynnal ar hyn. Mae WAI wedi nodi, gyda digon o fuddsoddiad, y gellid gwneud ymchwil barhaus yn y dyfodol trwy Arts Infopoint UK.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 4

*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi pa gamau y mae wedi'u cymryd i liniaru effaith Brexit ar y sector, gan gynnwys y goblygiadau ariannol, a pha gamau y bydd yn eu cymryd yn y dyfodol, mewn ymateb i'r adroddiad hwn.*

**Ymateb:** Derbyn

Mewn ymateb i effeithiau andwyol Brexit ar y sector diwylliant, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd sawl cam lliniaru. Mae cynlluniau cymorth ariannol wedi

cael eu cyflwyno i helpu sefydliadau ac unigolion yr effeithir arnynt. Rydym hefyd wedi gweithredu mentrau sydd â'r nod o feithrin gwytnwch ac arloesedd yn y sector.

Er enghraifft, yn 2023, cyflwynodd Cymru Greadigol y Gronfa Cynnwys i'r Ifanc, cynllun a gynlluniwyd i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn cyllid sydd ar gael i'r sectorau animeiddio a theledu plant ar ôl cau Cronfa Cynnwys i'r Ifanc Llywodraeth y DU. Er nad oedd yn gynllun pwrpasol i fynd i'r afael â phroblemau Brexit, helpodd y gronfa hon i fynd i'r afael â cholli mynediad at gyllid cynhyrchu'r UE trwy Ewrop Greadigol.

Mae Cymru Greadigol hefyd yn darparu cyllid i Sefydliad PRS, prif ariannwr elusennol y DU o ran datblygu cerddoriaeth a thalentau newydd, i gefnogi artistiaid o Gymru. Mae rhywfaint o'r arian hwn yn cael ei gyfeirio at artistiaid ar gyfer costau fel teithio.

Mae'r Gymdeithas Gwyliau Annibynnol wedi derbyn arian gan Cymru Greadigol i ddarparu hyfforddiant i drefnwyr gwyliau cerddoriaeth yng Nghymru a'r gweithlu llawrydd.

Mae Cymru Greadigol hefyd yn trefnu taith fasnach gerddorol flynyddol i ŵyl SXSW yn Austin, Texas, ar y cyd â FOCUS Wales, yr ŵyl ryngwladol yng Ngogledd Cymru.

Wrth edrych ymlaen, byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos ac addasu ein strategaethau i sicrhau cefnogaeth barhaus i'r sector diwylliannol yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol:

Cymru Greadigol – Y bwriad ar hyn o bryd yw addasu rhaglenni cyfredol gan ystyried gofynion yr argymhellion ac yng nghyd-destun masnach Ewropeaidd. Pan nodir rhaglenni newydd maes o law, gellir gwneud ceisiadau ariannol ychwanegol ar ddatblygu achosion busnes unigol.

## Argymhelliad 5

*Rydym yn annog y DU a'r UE i flaenoriaethu trefniadau newydd ar gyfer gweithwyr creadigol yn yr adolygiad gweithredu sydd ar ddod o'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad gyda'r bwriad o ddatblygu argymhelliad y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar artistiaid teithiol.*

Ymateb: Derbyn

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o flaenoriaethau ar gyfer yr adolygiad gweithredu sydd ar ddod o'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad.  Er na allwn ddatgelu manylion technegol yn gyhoeddus, gallaf roi sicrwydd bod ein blaenoriaethau lefel uchel yn cynnwys y problemau symudedd sy'n cael eu profi gan ystod eang o fusnesau ac unigolion. Ar hyn o bryd rydym yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y blaenoriaethau hyn.

Mae'n bwysig nodi, wth inni benderfynu ar ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol a'n blaenoriaethau ar gyfer unrhyw drafodaethau gyda'r UE am y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, neu am gytundebau eraill y tu allan i'r Cytundeb hwnnw, y bydd y penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud yng nghyd-destun y berthynas rhwng Llywodraeth y DU a'r UE. Bydd hynny, yn ei dro, yn dibynnu'n rhannol ar y naill law ar sut y bydd Senedd newydd Ewrop a Chomisiwn Ewropeaidd newydd yn mynd ati i weithredu ar ôl yr etholiadau diweddar; ac ar y llaw arall ar sut y bydd Llywodraeth newydd y DU yn mynd ati i weithredu ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU. Mae angen i'r ddwy ochr fod yn barod i drafod er mwyn sicrhau newid.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 6

*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys gwaith creadigol trawsffiniol fel blaenoriaeth mewn strategaeth glir a chydlynol sy'n nodi ei huchelgais ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE a Chymru-UE.*

Ymateb: Gwrthod

Rydym eisoes wedi amlinellu i'r pwyllgor hwn, ac i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, nad ydym yn cytuno bod angen strategaeth ar wahân rhwng Cymru a'r UE. Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol, sy'n cynnwys ein perthynas ag Ewrop.  Mae cadw ein swyddfa ym Mrwsel, a chreu cynrychiolydd ymroddedig ar gyfer yr UE, yn cadarnhau ein hymrwymiad i sicrhau bod Cymru yn rhoi gwerth uchel ar ein cysylltiadau ag Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r berthynas economaidd rhwng Cymru a'r UE yn hanfodol i ni a dylai gael ei galluogi a'i gwella gan y berthynas wleidyddol rhwng y DU a'r UE. Croesewir pwyslais Llywodraeth y DU ar ailosod y berthynas rhwng y DU a'r UE, ac rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau Cymru a safbwyntiau manwl yn cael eu hadlewyrchu mewn trafodaethau manylach ar berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 7

*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi ei barn bresennol ar sut mae Cymru'n cael ei chynrychioli yn strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE mewn ymateb i'r adroddiad hwn.*

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cynrychiolaeth Cymru mewn strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE. Rydym yn ymgysylltu'n weithredol â Llywodraeth y DU ar y strwythur llywodraethu presennol rhwng y DU a'r UE. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan ar bwyllgorau arbenigol masnach yr UE a mynychu'r pwyllgorau y mae gennym ddiddordeb ynddynt, fel arsylwr.

Yn 2024, mynychodd swyddogion Llywodraeth Cymru oddeutu 18 o bwyllgorau arbenigol fel arsylwr, gyda 12 o'r rhain yn ymwneud â materion masnach a 6 yn ymwneud â materion nad ydynt yn ymwneud â masnach. Ar gyfer llawer o'r cyfarfodydd hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd cyn ac ar ôl hynny rhwng Llywodraeth y DU a swyddogion y Llywodraeth Ddatganoledig i drafod yr eitemau ar yr agenda arfaethedig, gyda Llywodraethau Datganoledig yn cael eu gwahodd i roi sylwadau ar yr eitemau hynny cyn cyfarfod a myfyrio ar drafodaethau ar ôl y cyfarfod.

Mae'r ymgysylltiad ar y pwyllgorau wedi cynyddu'n ddiweddar ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn galluogi Llywodraethau Datganoledig i lunio eitemau agenda i raddau mwy nag a fu'n bosibl o'r blaen.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 8

*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r materion hyn mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol. Dylai gymryd camau ymarferol, megis awgrymu'r canlynol fel eitemau ar yr agenda sefydlog nes bod y sefyllfa'n gwella:*

*i. gwella trefniadau ôl-Brexit ar gyfer gweithwyr creadigol, gan gynnwys drwy adolygiad gweithredu TCA sydd ar ddod; a*

*ii. Cysylltiad y DU gyda Erasmus+ ac Ewrop Greadigol.*

*Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor hwn o leiaf unwaith y tymor ar drafodaethau rhynglywodraethol perthnasol ar y materion penodol hyn ar gyfer gweddill y Chweched Senedd.*

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad hwn mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol. Byddwn yn cymryd camau ymarferol, megis awgrymu gwella trefniadau ôl-Brexit ar gyfer gweithwyr creadigol fel eitem ar yr agenda sefydlog nes y gwneir cynnydd sylweddol. Bydd hyn yn cynnwys eiriolaeth barhaus yn ystod yr adolygiad gweithredu TCA sydd ar ddod i sicrhau bod gan ein gweithwyr creadigol y gefnogaeth a'r rhyddid angenrheidiol i ffynnu yn y dirwedd ôl Brexit.

Mae ein Gweinidogion wedi bod yn glir ynghylch yr uchelgais i Gymru gael y posibilrwydd o gymryd rhan mewn ystod llawer ehangach o raglenni'r UE gan gynnwys ERASMUS, Cydweithredu Tiriogaethol, ac Ewrop Greadigol.

Byddwn yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor pan fydd gennym ddiweddariadau. Efallai y bydd angen i ni adrodd i'r Pwyllgor fwy neu lai'n amlach nag unwaith y tymor yn dibynnu ar amseroedd cyfarfodydd rhynglywodraethol a dyna pam nad ydym wedi derbyn y rhan hon o'r argymhelliad.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 9

*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau pa ddata a thystiolaeth y mae'n eu defnyddio i lywio penderfyniadau yn y maes hwn, gan gynnwys cynnwys artistiaid teithiol fel blaenoriaeth ar gyfer yr adolygiad gweithredu o'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad.*

Ymateb: Derbyn

Daw'r rhan fwyaf o'r data a'r dystiolaeth yr ydym wedi bod yn eu hystyried gan WAI, fel ein partner strategol wrth ddarparu agweddau celfyddydol a diwylliannol ar y Strategaeth Ryngwladol. Darparwyd esboniad manylach mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymholiad ym mis Chwefror 2024:

Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru Chwefror 2024.pdf

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 10

*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu ei hasesiad o sut y bydd ei blaenoriaethau ar gyfer adolygiad gweithredu y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad yn mynd i'r afael â'r holl elfennau sydd angen iddynt weithio gyda'i gilydd i hwyluso gwaith creadigol trawsffiniol.*

Ymateb: Gwrthod

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o flaenoriaethau ar gyfer yr adolygiad gweithredu arfaethedig o Gytundeb Masnach a Chydweithrediad yr UE-DU (TCA). Fodd bynnag, fel y dywedasom, dim ond adolygiad o sut mae'r cytundeb yn gweithredu yw'r adolygiad gweithredu ac mae'n annhebygol o ddarparu cyfleoedd i newid testun y cytundeb.

Mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am gyflawni ei hymrwymiad i ailosod cysylltiadau rhwng y DU a'r UE, gan gynnwys archwilio sut i liniaru'r problemau sy'n wynebu busnesau ac unigolion oherwydd Brexit.  Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar bob lefel i amlygu a phwysleisio meysydd lle mae busnesau ac unigolion o Gymru yn wynebu problemau sy'n ymwneud â masnach trawsffiniol, gan gynnwys y rhai mewn sectorau creadigol. Er ein bod eisoes wedi amlinellu ein blaenoriaethau yn fwy manwl, nid ydym yn gallu ehangu ymhellach ar hyn o bryd oherwydd trafodaethau byw, parhaus yr ydym yn eu cael gyda Llywodraeth y DU.

Goblygiadau ariannol: Dim

## Argymhelliad 11

*Rydym yn cefnogi galwad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am sefydlu grŵp cynghori newydd gan Lywodraeth Cymru ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Dylai hyn gynnwys cyrff cynrychioliadol o'r sector diwylliant.*

Ymateb: Gwrthod

Mae gan Lywodraeth Cymru Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach (TPAG) eisoes, sy'n rhoi cyngor i Ysgrifenyddion y Cabinet ar faterion polisi masnach. Er bod TPAG

wedi canolbwyntio'n hanesyddol ar raglen Cytundeb Masnach Rydd y DU, mae'r UE wedi dod yn rhan o'i ffocws yn ddiweddar. Rydym wrthi'n ystyried diweddaru Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y grŵp i adlewyrchu'r newid hwn mewn ffocws, sy'n cynnwys gwahodd cynrychiolydd o'r sector diwylliant a/neu'r sector creadigol i ddod yn aelod o TPAG i ddarparu cyngor sectoraidd arbenigol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 12

*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi sut y mae wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y materion a gwmpesir gan yr ymchwiliad hwn ers mis Ionawr 2021, gan gynnwys canfyddiadau allweddol a'r camau a gymerwyd mewn ymateb.*

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar yr heriau parhaus sy'n wynebu'r sector creadigol yn yr UE ar ôl Brexit. Mae gan ein tîm Cerddoriaeth Cymru Greadigol gyfarfodydd rheolaidd â rhanddeiliaid grwpiau penodol, ond nid yw teithio wedi'i godi fel mater o flaenoriaeth yn unrhyw un o'r cyfarfodydd hyn. Mae Cymru Greadigol hefyd yn cynnal cyfarfodydd rhanddeiliaid gyda'r diwydiannau ffilm a theledu a gemau, lle gellir trafod y materion hyn. Ni chodwyd unrhyw faterion sylweddol trwy'r fforymau hyn ar yr ochr sgrin a gemau.

O safbwynt Polisi Masnach, yn hanesyddol mae ffocws ein TPAG wedi bod ar raglen Cytundeb Masnach Rydd Llywodraeth y DU, gyda'r UE ond yn ddiweddar yn dod yn rhan o'i ffocws. Byddwn yn ystyried diweddaru Cylch Gorchwyl ac aelodaeth ein TPAG presennol, fel y manylir yn yr ymateb i Argymhelliad 11, a fydd yn cryfhau ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid y sector diwylliannol a chreadigol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 13

*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgorffori canfyddiadau'r Pwyllgor yn ei strategaethau diwylliant a chysylltiadau rhyngwladol yn y dyfodol.*

**Ymateb:** Derbyn

Bydd canfyddiadau'r Pwyllgor yn cael eu hystyried wrth ddatblygu unrhyw strategaethau yn y dyfodol. Mae ein Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant yn cydnabod pwysigrwydd diwylliant o ran sut mae Cymru'n sefydlu ac yn datblygu cysylltiadau rhyngwladol, ac yn y modd yr ydym yn hyrwyddo Cymru i weddill y byd.

Pan fydd y canfyddiadau'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau cyflawni, byddant yn cael eu hymgorffori i alluogi cyflawni ein perthnasoedd rhyngwladol yn effeithiol yn y dyfodol.

Pan fydd canfyddiadau'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau datblygu economaidd ar gyfer y Diwydiannau Creadigol, byddwn yn ystyried y canfyddiadau ochr yn ochr â datblygu canllawiau cyfredol, rhaglenni a gweithgareddau newydd.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu a gweithio'n gadarnhaol gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu perthynas yr UE.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 14

*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal deialog â Llywodraeth Iwerddon ar y mater hwn fel rhan o'u cydweithrediad parhaus ac yn y dyfodol, ac i gwmpasu, lle bo modd, pa gymorth ychwanegol y gellid ei ddarparu ar y cyd wrth aros am ateb a arweinir gan y DU a'r UE.*

**Ymateb:** Derbyn

Mae gan Lywodraeth Cymru, drwy ein swyddfa yn Nulyn a thimau yng Nghymru, berthynas waith gref â Llywodraeth Iwerddon trwy Gonswliaeth Iwerddon yng Nghaerdydd, yr Adran Materion Tramor ac adrannau perthnasol eraill yn Iwerddon. Mae diwylliant wedi bod yn elfen allweddol o ddarpariaeth ar y cyd yn natganiad Iwerddon Cymru 2021-2025 trwy weithgareddau yng Nghymru ac Iwerddon. Mae Gŵyl ddiweddar Lleisiau Eraill yn Aberteifi yn enghraifft glir o sut rydym yn dathlu'r cysylltiadau diwylliannol rhwng y ddwy wlad. Mae'r ddwy lywodraeth wedi ymrwymo i weithio ar ddatblygu datganiad a rennir yn y dyfodol, lle bydd Diwylliant unwaith eto yn thema allweddol ar gyfer ymgysylltu. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Iwerddon wrth symud ymlaen i archwilio ffyrdd y gallwn weithio ar y cyd i gefnogi'r sector. Yn ystod ei hymweliad diweddar ag Iwerddon, cytunodd y Prif Weinidog dros dro ar

flaenoriaethau ar gyfer Datganiad a Rennir newydd gyda'r Taoiseach sy'n gadael, a bydd y rhain yn sail i drafodaethau unwaith y bydd llywodraeth newydd yn Iwerddon wedi'i sefydlu.

Goblygiadau ariannol: Dim